
Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau themmatig cenedlaethol

ar gyfer 2017



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

® Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

| | |
|---|-----------|
| Rhagair | 1 |
| Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd | 2 |
| Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach | 5 |
| Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach | 9 |
| Cymraeg i Oedolion – Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 12 |
| Adolygiad o addysg perthnasoedd iach | 14 |
| Rheoli arian – Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru | 17 |
| Gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2 | 19 |
| Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd | 23 |
| Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 | 26 |
| Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod | 30 |
| Arfer dda yn y dyniaethau | 32 |
| Dysgu gweithredol a thrwy brofiad – Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 | 36 |

Rhagair

Rydw i'n gobeithio y byddwch yn gweld y crynodeb hwn, a'r adroddiadau sy'n sylfaen iddo, yn addysgiadol a pherthnasol. Mae adroddiadau thematig Estyn a gyhoeddwyd yn 2017 yn cwmpasu ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau a themâu addysg, gan gynnwys rheoli presenoldeb gweithlu ysgol yn effeithiol mewn ysgolion cynradd, addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach, cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn medrau byw yn annibynnol mewn colegau, yn ogystal ag adolygiad cenedlaethol o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion sydd o bwys canolog i lunwyr polisi. Mae'r llythyr cylch gwaith blynyddol at PAEM gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac yn ystod y flwyddyn galendr hon, mae'n cynnwys arolygon sy'n cynnwys ffocws ar y cwricwlwm gydag astudiaethau achos arfer effeithiol mewn dysgu gweithredol a thrwy brofiad yn y cyfnod sylfaen, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2, gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ac arfer dda yn y dyniaethau. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi arolygon yn ymwneud ag addysg perthnasoedd iach, addysg ariannol, a gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.

Mae ein hadroddiadau wedi'u bwriadu i annog meddwl yn ehangach a chyfrannu at drafodaethau presennol mewn meysydd polisi fel cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â rhannu astudiaethau achos arfer effeithiol ar draws pob sector. Mae'r rhaglen adroddiadau thematig sydd ar ddod yn ystod 2018 yn addo i fod yr un mor berthnasol gydag adolygiadau ar y gweill sy'n canolbwyntio ar ystod eang o feysydd fel paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, rhoi'r cymwysterau TGAU newydd a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru ar waith, yn ogystal ag adolygiadau cenedlaethol o gyrsiau Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau, ac o brentisiaethau uwch.

Rydym yn gobeithio bod yr adroddiadau thematig hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth gan ddarparwyr i wella'u harfer a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mae'r crynodeb hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn galendr hon yn dod â'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion o bob adroddiad at ei gilydd, er hwylustod. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig>.

Meilyr Rowlands

Meilyr Rowlands

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd

Prif ganfyddiadau

Rheoli presenoldeb athrawon

- 1 Mae mwyafrif y penaethiaid y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o arweiniad 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' Llywodraeth Cymru, ond lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi darllen argymhellion y ddogfen, a gweithredu yn unol â nhw.
- 2 Mae gan bron bob ysgol systemau cadarn ar waith i olrhain a monitro absenoldeb staff o ganlyniad i salwch, yn unol â'u polisi ar reoli presenoldeb. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu awdurdodau lleol sy'n dal data ar ba mor aml y mae athrawon dosbarth yn absennol o'u dosbarth am resymau heblaw salwch, er enghraifft ar gyfer hyfforddiant neu ddyletswyddau eraill yn yr ysgol.
- 3 Mae tua hanner y penaethiaid wedi cael hyfforddiant yn y tair blynedd ddiwethaf ar reoli presenoldeb staff. Fodd bynnag, nid yw tua hanner o'r rhain yn deall yn llawn nac yn cymhwyso pob agwedd ar weithdrefnau eu hawdurdod lleol ar gyfer rheoli absenoldeb.
- 4 Mae llawer o benaethiaid yn adrodd ar bresenoldeb staff i gorff llywodraethol eu hysgol yn rheolaidd, ond ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb staff yng nghynlluniau datblygu eu hysgol neu'n gosod targedau ar gyfer ei wella.
- 5 Wrth drefnu cyflenwi wedi ei gynllunio ar gyfer athrawon dosbarth, y prif ffactorau sy'n cael eu hystyried gan arweinwyr ysgol yw ansawdd yr addysgu, ansawdd rheoli ymddygiad, a ph'un a yw personél cyflenwi yn hysbys i'r ysgol. Wrth drefnu cyflenwi heb ei gynllunio, y prif ffactorau sy'n cael eu hystyried gan arweinwyr ysgol yw pa mor gyflym y gall rhywun gyrraedd yr ysgol, a'r gost.
- 6 Mae bron pob ysgol wedi cael anhawster yn trefnu darpariaeth gyflenwi addas ar gyfer athrawon dosbarth absennol. I leiafrif o ysgolion, mae hyn yn digwydd tua hanner yr amser, ac i rai ysgolion, mae hyn yn digwydd tua thri chwarter yr amser. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, caiff ysgolion yn aml eu cyfyngu o ran dewis ac ansawdd yr athrawon cyflenwi sydd ar gael.
- 7 Ar gyfer absenoldebau wedi eu cynllunio, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gadael gwaith ac yn cynllunio dogfennau ar gyfer yr athro cyflenwi. Mewn tua hanner yr ysgolion yn unig y mae'r gwaith ar yr un lefel ag y byddai disgyblion yn ei dderbyn fel arfer. Ar gyfer absenoldebau heb eu cynllunio, yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon cyflenwi yn defnyddio dogfennau cynllunio'r athro dosbarth i ddarparu cyddestun wrth gynllunio gwersi. Fodd bynnag, pan na fydd y wybodaeth gynllunio hon ar gael, mae athrawon cyflenwi yn cynllunio eu gwaith eu hunain ar gyfer y disgyblion heb arweiniad. Yn aml, mae hyn yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar gadw plant yn

brysur, yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.

- 8 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn darparu rhyw fath o adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi i arweinwyr ysgol ac asiantaethau cyflenwi. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n rhoi adborth i'r athro cyflenwi ei hun. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnal unrhyw fath o reoli perfformiad staff cyflenwi yn ffurfiol, oni bai eu bod yn cael eu cyflogi yn yr ysgol am dymor neu fwy.

Rheoli presenoldeb penaethiaid

- 9 Er bod dogfen Llywodraeth Cymru 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' yn rhoi arweiniad defnyddiol i ysgolion ar reoli absenoldeb athrawon, nid yw'n rhoi arweiniad i ysgolion, cyrff llywodraethol neu awdurdodau lleol ar reoli absenoldeb penaethiaid. Nid oes gan fwyafrif yr ysgolion gynllun ar waith ar y ffordd orau o drefnu darpariaeth gyflenwi pan fydd pennaeth yn absennol.
- 10 Bron ym mhob ysgol, yn ystod cyfnod o absenoldeb pennaeth yn y tymor byr, mae'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl y pennaeth. Bron ym mhob ysgol, yn ystod absenoldeb y pennaeth yn y tymor hir, mae'r awdurdod lleol yn cysylltu â chadeirydd y llywodraethwyr neu'r corff llywodraethol llawn i drefnu darpariaeth gyflenwi addas. Y dirprwy bennaeth sy'n gwneud y gwaith cyflenwi hwn gan amlaf hefyd. Os nad y dirprwy bennaeth yw'r unigolyn mwyaf priodol i arwain yr ysgol pan fydd pennaeth yn absennol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o atebion cyflenwi eraill. Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol yn cadw cofrestr o uwch arweinwyr o ysgolion lleol eraill a allai ddarparu arweinyddiaeth addas yn lle'r pennaeth yn yr amgylchiadau hyn.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 Hyrwyddo'r ddogfen 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' yn ehangach
- A2 Rhoi arweiniad i ysgolion ac awdurdodau lleol ar fonitro, cofnodi ac arfarnu effaith absenoldeb staff o ganlyniad i weithgareddau heblaw salwch, fel hyfforddiant, cynadleddau a chymorth o ysgol i ysgol
- A3 Darparu arweiniad ar reoli absenoldeb penaethiaid yn effeithiol
- A4 Sicrhau yr eir i'r afael â darpariaeth staff cyflenwi yn y sector cyfrwng Cymraeg wrth adolygu'r strategaeth gweithlu athrawon

Dylai awdurdodau lleol:

- A5 Sicrhau bod hyfforddiant ar reoli presenoldeb gweithlu ar gael i bob pennaeth a'i fod yn ffurfio rhan o becyn ymsefydlu ar gyfer yr holl bennaethiaid newydd a benodir

A6 Darparu data meincnodi rheolaidd i ysgolion ar bresenoldeb staff yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru

Dylai ysgolion:

A7 Ffonitro gwaith athrawon cyflenwi yn rheolaidd a sicrhau bod pob disgybl yn parhau i wneud cynnydd priodol pan fydd eu hathro dosbarth arferol yn absennol

A8 Rhoi adborth i athrawon cyflenwi ar eu perfformiad

A9 Sicrhau bod athrawon cyflenwi yn gallu mynd at ddogfennau cynllunio athrawon bob amser

Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach

Prif ganfyddiadau

Parhad a dilyniant mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 1 O fan cychwyn isel, bu cynnydd bach yn nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015 wedi'i gyflawni, nid yw llawer o ddysgwyr yn parhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fyddant yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg.
- 2 At ei gilydd, nid oes digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach. Mae cryn amrywio rhwng meysydd dysgu o ran cyfran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys meysydd dysgu lle ceir galw cynyddol gan gyflogwyr am fedrau dwyieithog, fel lletygarwch ac arlwy.
- 3 Mae ychydig o golegau wedi llwyddo i gyflwyno cyrsiau'n ddwyieithog. Nid yn unig y mae'r colegau hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu medrau dwyieithog, maent hefyd yn sicrhau bod dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Saesneg yn bennaf yn gwneud cynnydd â'u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o golegau, lle mae nifer y dysgwyr sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, wedi rhoi digon o ystyriaeth i ddarparu cyrsiau'n ddwyieithog er mwyn creu maint dosbarthiadau hyfyw.
- 4 Yn yr ychydig o achosion lle mae colegau'n cyflwyno unedau cyfrwng Cymraeg neu unedau iaith Gymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg, rhoddir cyfleoedd da i ddysgwyr a ddysgodd Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ddatblygu'u medrau Cymraeg ymhellach a helpu bodloni galw cynyddol am y medrau hyn gan gyflogwyr. Yn gyffredinol, nid yw colegau'n gwneud digon yn hyn o beth, nac o ran adnewyddu a mireinio medrau Cymraeg dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg.
- 5 Nid yw llawer o golegau yn cofnodi gwybodaeth yn gyson ac yn gywir ynglŷn â pha weithgareddau dysgu a gyflawnir yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oes dealltwriaeth glir gan athrawon a rheolwyr data colegau ynglŷn â sut dylai eu dulliau addysgu dwyieithog gael eu categoreiddio. Mae colegau yn adrodd am ddiffyg eglurder yn yr arweiniad a gânt gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut i categoreiddio gweithgareddau addysgu a dysgu dwyieithog gwahanol. Mae hyn yn codi amheuan ynglŷn dibynadwyedd data cenedlaethol.

Safonau medrau Cymraeg dysgwyr

- 6 Mewn gwersi, mae medrau Cymraeg neu ddwyieithog llafar da gan lawer o ddysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gywir,

ac yn dangos dealltwriaeth dda o eirfa a therminoleg pwnc. Fodd bynnag, dywed rhyw draean o ddysgwyr mai dim ond yn eithaf hyderus y maent ar lafar ar y gorau, er iddynt ddilyn cyrsiau yn Gymraeg neu fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dewis cyflwyno'u gwaith cwrs yn Gymraeg yn ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol, gan ddefnyddio ystod o eirfa a therminoleg pwnc yn gywir. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn dewis peidio â chyflwyno aseiniadau yn Gymraeg. Dim ond rhyw draean o ddysgwyr sy'n teimlo bod eu Cymraeg wedi gwella ers i'w cyrsiau coleg ddechrau.

- 7 Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn unedau cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd da, o ystyried eu cefndir ieithyddol. Defnyddiant eirfa Gymraeg ac ymadroddion penodol i bwnc gyda chywirdeb cynyddol.

Addysgu ac asesu

- 8 Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn dda mewn gwersi a gyflwynir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae safon yr addysgu mewn unedau cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn dda ar y cyfan hefyd. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn llwyddo i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu ac addysgu.
- 9 Nid yw'r mwyafrif o ddysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau'u hasesiadau terfynol yn Gymraeg. Fe allai hyn gael effaith niweidiol ar statws darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Arweinyddiaeth

- 10 Mewn lleiafrif o golegau, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth gadarn ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn yr achosion hyn, mae cynlluniau strategol yn cynnwys targedau heriol a strategaethau gwella manwl i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth hon.
- 11 Yn y mwyafrif o golegau, fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi datblygu'u cynlluniau Cymraeg i'r un graddau. Yn y colegau lle ceir cyfrannau isel o ddysgwyr sy'n dilyn eu pynciau neu'u meysydd galwedigaethol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, nid yw arweinwyr yn ystyried bod cynyddu'r gyfran hon yn flaenoriaeth i'r coleg cyfan. Yn aml, nid yw ysgolion yn rhannu gwybodaeth am fedrau ieithyddol disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r coleg, ac mae hyn yn rhwystr rhag sicrhau parhad a dilyniant o ran dysgu yn Gymraeg.
- 12 Er gwaethaf nifer o fentrau llwyddiannus, nid yw colegau wedi gwneud digon i sicrhau bod dysgwyr y cydnabod manteision parhau i gael eu haddysgu a'u hasesu yn Gymraeg wedi iddynt drosglwyddo i'r coleg o'r ysgol uwchradd.

Staffio a hyfforddiant

- 13 Mae lleiafrif o golegau yn cynnal arolygon o fedrau ieithyddol staff yn rheolaidd ac yn gweithredu polisiau recriwtio cadarn ar sail y wybodaeth hon i sicrhau bod digon o staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol rhag ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y mwyafrif o golegau.

- 14 Mae ychydig o golegau yn cynnig ystod eang o hyfforddiant mewn swydd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Fodd bynnag, lle mae nifer y dysgwyr sy'n dymuno dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg yn isel, nid yw colegau'n gwneud digon i ddatblygu medrau addysgu dwyieithog staff.

Cymorth ac arweiniad

- 15 Mae hyrwyddwyr dwyieithrwydd, y cynllun sabothol¹, a Sgiliaith² wedi sicrhau cymorth da i athrawon a dysgwyr. Yn sgil gwaith yr hyrwyddwyr dwyieithrwydd, mae'r mwyafrif o golegau addysg bellach yn paratoi rhaglenni cymdeithasol erbyn hyn sy'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae effaith hyrwyddwyr dwyieithrwydd yn llai cadarnhaol lle nad ydynt yn cyfrannu at brosesau cynllunio strategol ac at adolygu cynnydd yn erbyn targedau.
- 16 Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg ac adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 o hyd. Mae prinder gwerslyfrau Cymraeg a gwirwyr allanol Cymraeg, ynghyd â threfniadau cyrff dyfarnu, yn parhau i gyfyngu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Argymhellion

Dylai colegau addysg bellach:

- A1 Weithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion uwchradd i nodi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg cyn iddynt drosglwyddo i'r coleg a sicrhau bod yr holl wybodaeth am gymorth sydd ei hangen arnynt gan ddysgwyr er mwyn eu galluogi i ddewis i barhau â'u dysgu yn Gymraeg
- A2 Cryfhau cynlluniau strategol Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn enwedig yn y meysydd galwedigaethol y mae galw cynyddol am fedrau dwyieithog ynddynt gan gyflogwyr
- A3 Sicrhau bod digon o staff ar gael ym mhob coleg i ddarparu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a chefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg
- A4 Gwella hyfforddiant staff ar y fethodoleg addysgu'n ddwyieithog, a sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

¹ Cynllun hyfforddi i ymarferwyr yw'r Cynllun Sabothol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau cyn-16 ac ôl-16. Mae'r Cynllun yn cynnig cyfnodau o astudio dwys, i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth, er mwyn datblygu medrau Cymraeg a magu hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

² Sefydlwyd Canolfan Sgiliaith yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yn 2001. Nod y ganolfan yw hyrwyddo addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ledled Cymru. Mae Sgiliaith yn cefnogi colegau a darparwyr eraill ar hyd a lled Cymru i ymateb i'r galw cynyddol am fedrau Cymraeg.

- A5 Sicrhau bod gwybodaeth am allu iaith dysgwyr, cymwysterau blaenorol yn Gymraeg a gweithgareddau dysgu wedi'u cofnodi'n gywir yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Helpu colegau i wella ansawdd cynlluniau strategol iaith Gymraeg, gan gynnwys defnyddio data i osod targedau heriol er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- A7 Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynnydd a wneir gan golegau yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau strategol
- A8 Gwella meysydd casglu data, a'u canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod colegau'n cofnodi gwybodaeth gywir am alluoedd ieithyddol dysgwyr ac iaith dysgu ac asesu yn ôl gweithgaredd
- A9 Datblygu strategaeth genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o fanteision dewis parhau i ddysgu yn Gymraeg pan fyddant yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg
- A10 Sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae'r rhan fwyaf o golegau AB yn casglu ystod eang o wybodaeth berthnasol am alluoedd, anghenion a chyflawniad blaenorol dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r coleg. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn trosglwyddo'n llwyddiannus o ysgol neu ddarparwyr eraill i faes dysgu medrau byw yn annibynnol y coleg. Mewn rhai achosion, mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr blaenorol yn amrywio'n eang. Yn ychwanegol, mae rhai colegau'n adrodd am anawsterau wrth gofnodi ystod lawn yr anghenion pan fydd dysgwyr yn symud o wasanaethau cymdeithasol plant i wasanaethau cymdeithasol oedolion oherwydd ansawdd y wybodaeth a ddarperir.
- 2 Nid yw'r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio ystod ddigon eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth. Mae hyn oherwydd nad oes ganddynt drefniadau ar waith i asesu neu olrhain medrau dysgwyr mewn meysydd pwysig fel annibyniaeth, lles, cyflogadwyedd neu gyfathrebu. Yn ychwanegol, ychydig iawn o golegau sydd â digon o arbenigwyr mewnol i asesu ystod lawn anghenion mwy cymhleth dysgwyr ac maent yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr addysg blaenorol, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a gaiff staff addysgu a staff cymorth mewn colegau i ddatblygu eu harbenigedd a'u dealltwriaeth yn y meysydd pwysig hyn.
- 3 Mae gan bob coleg gynlluniau dysgu unigol (CDUau) ar waith ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, mae CDUau yn amrywio'n sylweddol o ran pa mor dda y maent yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer dysgwyr sy'n ymestyn y tu hwnt i gwblhau'r cwrs neu'r rhaglen ddysgu. Ychydig iawn o CDUau sy'n gosod targedau tymor byr, tymor canolig neu dymor hir cydlynus sy'n ystyried cyrchfannau tebygol yr holl ddysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg.
- 4 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n adolygu cynnydd yn erbyn eu targedau ar eu CDUau yn rheolaidd, ond prin yw'r colegau sy'n olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau dros gyfnod. Yn ychwanegol, mewn llawer o golegau, mae ansawdd y broses o osod targedau yn rhy amrywiol i CDUau fod yn gofnod cywir o gynnydd dysgwyr. Nid yw llawer o dargedau'n cysylltu'n ddigonol â deilliannau asesiadau cychwynnol ac nid ydynt yn ddigon penodol i gofnodi camau dysgu bach.
- 5 Mewn llawer o golegau, mae systemau olrhain a monitro cynnydd dysgwyr ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol yn rhy ddibynnol ar ennill cymwysterau. I lawer o ddysgwyr ag anghenion cymhleth, nid yw'r dull hwn yn cynnig mesuriad cywir na pherthnasol o gynnydd.
- 6 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae staff yn cynllunio'r cwricwlwm medrau byw yn annibynnol yn ofalus i gefnogi dilyniant dysgwyr yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o

ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i ddilyn cyrsiau pellach naill ai ar yr un lefel neu ar lefel uwch. Mewn llawer o golegau, nid yw rhaglenni dysgu yn rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau dysgwyr nac yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer datblygu annibyniaeth, cyflogadwyedd a medrau bywyd dysgwyr. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, nid yw rhaglenni dysgu yn paratoi dysgwyr yn effeithiol ar gyfer yr heriau y byddant yn eu hwynebu yn eu bywydau yn y dyfodol.

- 7 Yn y rhan fwyaf o golegau, caiff dysgwyr gyfleoedd i ddilyn cymwysterau ar lefel sy'n gweddu'n dda i'w galluoedd ar y cyfan. Mewn llawer o achosion, nid yw cymwysterau'n mynd i'r afael ag ystod eang anghenion dysgwyr nac yn adlewyrchu eu gyrchfannau'n ddigon da. At ei gilydd, rhoddir gormod o bwyslais ar gymwysterau i fesur cyflawniad neu gynnydd pan nad yw hyn yn berthnasol i anghenion a galluoedd dysgwyr, na'u gyrchfannau yn y dyfodol.
- 8 Mae gan bron bob coleg ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Defnyddiant ganlyniadau asesiadau cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu rhoi ar gyrsiau ar y lefel briodol. Fodd bynnag, nid yw asesiadau gwaelodlin yn cofnodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer llawer o ddysgwyr llai abl yn ddigon da, ac ychydig iawn o golegau yn unig sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau cyfathrebu dysgwyr.
- 9 Nid yw llawer o golegau yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau bywyd ac annibyniaeth dysgwyr. Er bod y rhan fwyaf o raglenni'n cynnwys unedau sy'n datblygu medrau mewn meysydd perthnasol, fel coginio neu deithio'n annibynnol, nid yw gweithgareddau dysgu yn gyffredinol yn rhoi cyfleoedd addas i ddysgwyr gaffael medrau ymarferol neu gymhwysu'r rhain mewn cyd-destunau realistig. Nid yw'r rhan fwyaf o golegau yn arfarnu'r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu'r medrau hyn dros gyfnod.
- 10 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau i sicrhau bod dysgwyr ar raglenni galwedigaethol yn elwa ar brofiad gwaith perthnasol. Mae darpariaeth ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr nad ydynt ar gyrsiau galwedigaethol yn fwy cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr is eu gallu. Nid oes gan ryw hanner y colegau resymwaith clir ar gyfer datblygu medrau sy'n gysylltiedig â gwaith dysgwyr pan nad yw hyn yn ofyniad yn y cymhwyster.
- 11 Aeth llawer o ddysgwyr a gwblhaodd eu rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol yn 2015-2016 ymlaen i ddilyn cyrsiau priodol o fewn y maes dysgu medrau byw yn annibynnol ar yr un lefel neu ar lefel uwch. Aeth rhai dysgwyr ymlaen i ddilyn cyrsiau lefel uwch yn narpariaeth prif ffrwd y coleg AB. Dechreuodd ychydig iawn o ddysgwyr ar gyflogaeth wedi iddynt gwblhau eu cwrs, tua'r un gyfran o ddysgwyr nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant pan adawsant y coleg.
- 12 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n rhoi cyngor ac arweiniad rheolaidd i ddysgwyr am eu dyfodol, ond mae'r data a gasglant ar gyrchfannau dysgwyr wedi iddynt gwblhau eu rhaglenni dysgu, a pha mor dda y maent yn arfarnu'r data hwn, yn rhy anghyson.
- 13 Nid yw llawer o golegau'n rhoi digon o bwyslais ar gyrchfannau tebygol dysgwyr trwy gydol eu cyfnod yn y coleg. O ganlyniad, caiff gyrchfannau llawer o ddysgwyr eu

pennu'n bennaf gan yr hyn sydd ar gael yn lleol, yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio cydlynus.

- 14 At ei gilydd, mae cyrchfannau dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau medrau dysgu'n annibynnol yn amrywio gormod ar draws awdurdodau lleol. Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn darpariaeth leol ar gyfer oedolion ag anawsterau ac anableddau dysgu, yn ogystal â gwahaniaethau yn y ffordd y mae colegau wedi ffurfweddu partneriaethau yn lleol i sicrhau llwybrau dilyniant dibynadwy ar gyfer eu dysgwyr. Yn benodol, mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth addas mewn llawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys cyflogaeth a gefnogir, i alluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu a chymhwyso'r medrau y maent wedi'u dysgu yn y coleg.

Argymhellion

Dylai colegau AB:

- A1 Nodi medrau a galluoedd ehangach dysgwyr yn ystod asesiadau cychwynnol a chynnwys ffocws addas ar gyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a lles o fewn y rhain
- A2 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau dysgu unigol yn adlewyrchu deilliannau asesiadau cychwynnol a'u bod yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy sy'n cysylltu'n glir â nodau tymor hir a chyrchfannau tebygol dysgwyr
- A3 Cynllunio rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol sydd:
- yn ddigon heriol
 - yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu medrau sy'n berthnasol i anghenion a chyrchfannau tebygol dysgwyr pan fyddant yn gadael y coleg
 - yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng cwblhau cymwysterau a gweithgareddau dysgu
- A4 Rhoi systemau dibynadwy ar waith i olrhain cynnydd yr holl ddysgwyr mewn perthynas â'u manau cychwyn unigol
- A5 Olrhain cyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y maes dysgu neu'r coleg yn gywir

Dylai awdurdodau lleol:

- A6 Rhoi gwybodaeth berthnasol i golegau am anghenion dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn y coleg
- A7 Datblygu ystod ehangach o bartneriaethau gyda'r sector ôl-16 a'r sector gwirfoddol i ddatblygu a gwella llwybrau dilyniant yn yr ardal leol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8 Adolygu'r broses o gasglu gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr ar raglenni medrau byw yn annibynnol i sicrhau bod hyn yn rhoi darlun cywir o gyrchfannau dysgwyr ledled Cymru

Cymraeg i Oedolion – Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ei rôl yn dda fel llais cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sector ac mae wedi gwneud cynnydd o ran gwella a chytgordio dulliau o ddatblygu'r cwricwlwm, casglu data, datblygiad proffesiynol ac asesu ar draws y sector.
- 2 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ad-drefnu'r sector yn effeithiol, gan symud o chwe chanolfan ranbarthol a'u 20 is-gontractwr a mwy i 11 darparwr. Mae darparwyr yn gyfrifol am ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd daearyddol ac maent yn atebol i'r Ganolfan Genedlaethol am wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg.
- 3 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi diffinio ei nodau a'i hamcanion strategol yn glir. Mae'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys y diffyg mesurau safonol sy'n arfarnu'r cynnydd a wnaed gan oedolion sy'n dysgu Cymraeg, a'r amrywiad eang mewn dulliau a ddefnyddir ar gyfer y cwricwlwm Cymraeg i Oedolion ledled Cymru.
- 4 Ar y cyfan, mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus wrth gyfleu ei strategaethau a'i dulliau i'w darparwyr newydd. Teimla darparwyr fod staff y Ganolfan Genedlaethol yn gynhwysol ac yn bobl hawdd mynd atynt, ac maent yn gwybod pwy y gallant gysylltu â nhw os bydd angen cyngor arnynt. Fodd bynnag, rhai darparwyr yn unig sy'n gwbl ymwybodol o drefniadau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol. Mewn rhai achosion, mae darparwyr yn amharod i groesawu'n llawn y cyfeiriad a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol ac maent yn araf i dderbyn y newidiadau y mae'n eu hyrwyddo.
- 5 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi sefydlu rhwydwaith o bwyllgorau a grwpiau i drafod dulliau cenedlaethol o ymdrin â materion pwysig o fewn y sector, er enghraifft cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol, marchnata, cwricwlwm a hyfforddiant. Mae'r pwyllgorau hyn yn gwella dulliau cyson o fewn y sector.
- 6 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnal cyfarfodydd monitro ffurfiol bob tymor gyda phob darparwr i drafod eu perfformiad a nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Megis dechrau y mae'r broses hon, ac ar hyn o bryd, mae lleiafrif o ddarparwyr yn ansicr ynglŷn â chanlyniadau peidio â chyflawni eu targedau.
- 7 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu gynhwysfawr i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg, ac annog mwy o oedolion i ddysgu'r iaith. Mae arfarniad y Ganolfan Genedlaethol o'r strategaeth hon, ac adborth gan ddarparwyr, yn dangos bod angen mireinio'r dull marchnata presennol er mwyn cyrraedd mwy o ddarpar ddysgwyr.

- 8 Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyflwyno systemau trylwyr i sicrhau bod darparwyr yn targedu cyfran fwy o'u cyllid ar weithgareddau addysgu a dysgu. Mae ei chontractau gyda darparwyr yn pennu bod gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu a dysgu wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y cyllid a ddyrennir. Y ffigur cyfartalog ar hyn o bryd yw 7%.
- 9 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ystod newydd o gyrsiau ar lefelau mynediad, sylfaen, canolraddol ac uwch er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ledled Cymru. Mae lefelau deilliant y cwricwlwm newydd yn cyd-fynd â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd (CEFR). Bu'r Ganolfan Genedlaethol yn ymgynghori â darparwyr ynglŷn â'r newidiadau hyn ac mae wedi ymateb yn briodol i adborth.
- 10 Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu offeryn asesu ar-lein defnyddiol ar gyfer dysgwyr. Ni fydd yr offeryn yn gwbl weithredol nes y caiff y cwricwlwm newydd ei gwblhau, ac nid yw'n glir sut mae'r Ganolfan Genedlaethol yn bwriadu ei ddefnyddio i fesur cynnydd.
- 11 Ar hyn o bryd, mae darparwyr yn defnyddio eu systemau eu hunain ar gyfer gwranddo ar safbwyntiau dysgwyr er mwyn gwella eu profiadau dysgu. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyflwyno dull cyson ar draws yr holl ddarparwyr.
- 12 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r Ganolfan Genedlaethol i ddatblygu cyrsiau i addysgu Cymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn ailrymuso rôl allweddol y Ganolfan Genedlaethol mewn cynllunio trwy gyfrwng y Gymraeg, er ei fod yn gosod gofynion ychwanegol ar y Ganolfan.

Argymhellion

Dylai'r Ganolfan Genedlaethol:

- A1 Ddatblygu ei gweithdrefnau ar gyfer dwyn y darparwyr i gyfrif am eu perfformiad a'u cydymffuriad â'r polisiau cenedlaethol
- A2 Mireinio ei strategaethau marchnata mewn cydweithrediad â darparwyr i dargedu mwy o ddarpar ddysgwyr ar draws cymunedau amrywiol Cymru

Dylai darparwyr:

- A3 Roi'r polisiau a'r arferion a gyflwynwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar waith yn llawn
- A4 Gwella eu dealltwriaeth o drefniadau a pholisiau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol

Adolygiad o addysg perthnasoedd iach

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae cynnwys addysg perthnasoedd iach, a'r ffordd y caiff ei chyflwyno, yn amrywio gormod mewn ysgolion ledled Cymru. At ei gilydd, nid yw ysgolion yn neilltuo digon o amser na phwysigrwydd i'r agwedd hon ar addysg bersonol a chymdeithasol.
- 2 Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol o ran cyflwyno addysg perthnasoedd iach yn creu ethos ble mae disgyblion yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac yn parchu hawliau pobl eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn meithrin gwydnwch ac yn magu hunan-barch a hyder.
- 3 Mae'r holl ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fel rhan o'r adroddiad hwn yn addysgu disgyblion am berthnasoedd digidol iach trwy addysg e-ddiogelwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i oedran o faterion pwysig fel bwlio seiber, paratoi i bwrpas rhyw a gwarchod gwybodaeth bersonol ar-lein.
- 4 Mae bron pob ysgol yn addysgu disgyblion am gydraddoldeb o ran rhywedd. Mae pob ysgol uwchradd, a llawer o ysgolion cynradd, yn addysgu disgyblion am gam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn addysgu disgyblion am fathau o drais yn erbyn menywod fel priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais ar sail anrhydedd. Mae gormod o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd ble nad yw cymunedau'n amrywiol, nad ydynt yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i broblemau trais yn erbyn menywod. Nid ydynt yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol.
- 5 Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn dangos bod bron yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd yn cael addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh). Mae ysgolion cynradd yn ymestyn y ddarpariaeth hon i Flwyddyn 5 yn gynyddol i adlewyrchu'r ffaith fod rhai plant yn cyrraedd cyfnod y glasoed yn iau. Mewn llawer o ysgolion cynradd, caiff ARhPh ei chyflwyno gan weithwyr iechyd proffesiynol hyfforddedig a phrofiadol. Mae lleiafrif o ysgolion yn osgoi agweddau ar addysg rhyw a pherthnasoedd, heblaw cyfnod y glasoed. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn gadael i weithwyr iechyd proffesiynol y GIG addysgu disgyblion yn gyfan gwbl ynglŷn â hylendid personol a chyfnod y glasoed mewn sesiynau unigol, ac nid yw hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion godi materion personol gydag athrawon y maent yn eu hadnabod.
- 6 Mewn ysgolion uwchradd, mae amrywiad eang o ran cynllunio a darpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae tiwtoriaid dosbarth yn addysgu'r pwnc hwn mewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) fel rhan o'r system diwtorial. Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae addysg perthnasoedd iach yn rhan o'r cwricwlwm ABCh yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn cynnal gwersi ABCh ar wahân yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgolion hyn yn hyrwyddo addysg perthnasoedd iach yn ystod diwrnodau thema, gwasanaethau ac fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Nid yw ysgolion sy'n cyflwyno addysg perthnasoedd iach mewn gwasanaethau unigol, diwrnodau thema neu gyfresi bach o wersi mewn pynciau ar

wahân yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion archwilio agweddau cymdeithasol ac emosiynol pwysig ar berthnasoedd.

- 7 Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol i gyflwyno agweddau pwysig ar addysg perthnasoedd iach. Mae asiantaethau arbenigol yn darparu ystod eang o gymorth i ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff, gwersi sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion, a chyfeirio dioddefwyr at ffynonellau cymorth. Pan fydd ysgolion yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol, gyda'i gilydd, maent yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys gwaith sy'n briodol i oedran ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol.
- 8 Mewn ysgolion sydd â'r arfer orau, mae athrawon yn ychwanegu at fewnbwn gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau arbenigol yn dda i gynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion i archwilio agweddau pwysig ar berthnasoedd iach ar draws y cwricwlwm.
- 9 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae llawer o ysgolion yn yr arolwg wedi ffurfio partneriaethau strategol gwerthfawr gydag asiantaethau arbenigol sy'n darparu cymorth a chyingor priodol ar gyfer disgyblion. Mae rhai ysgolion cynradd yn yr arolwg wedi defnyddio cyllid ychwanegol i ymestyn gwasanaethau cwnsela y tu hwnt i Flwyddyn 6 i gynnwys disgyblion ar draws yr ysgol. Mae ystadegau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (2016c) ar ddarparu gwasanaethau cwnsela ledled Cymru yn dangos bod 11,567 o blant wedi cael eu cwnsela yn 2014-2015. Gwnaed bron i hanner y cyfeiriadau gan staff ysgolion, ac roedd y broblem fwyaf cyffredin yn ymwneud â pherthnasoedd o fewn teuluoedd.
- 10 Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg perthnasoedd iach wedi'u datblygu'n ddigonol mewn ysgolion ledled Cymru. Yn y nifer fach iawn o ysgolion ble mae disgyblion yn llysgenhadon cydraddoldeb o ran rhywedd, mae disgyblion yn gweithredu fel hyrwyddwyr perthnasoedd iach, yn darparu cymorth i gyfoedion ac yn gwneud cyfraniad pwysig at waith ataliol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.
- 11 Yn gyffredinol, mae ysgolion mewn cymunedau sy'n ddiwylliannol amrywiol yn meithrin perthnasoedd cryf gyda rhieni ac arweinwyr cymunedol. Mae hyn yn helpu i wella ymgysylltiad rhieni â'r ysgol, yn lleihau tensiynau diwylliannol ac yn hyrwyddo ethos ble caiff amrywiaeth ei pharchu.
- 12 Mae cefnogaeth gan yr holl ysgolion ac asiantaethau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg i gynnwys addysg perthnasoedd iach fel rhan o'r maes dysgu iechyd a lles yn y diwygiadau i'r cwricwlwm sy'n cael ei gynllunio ar ôl 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015).
- 13 Mae llawer o asiantaethau arbenigol yn credu na fydd nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf TEMCDThRh: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) yn cael eu cyflawni'n llawn heb arweiniad statudol ar gyfer ysgolion, yn amlinellu cwricwlwm craidd ar gyfer addysg perthnasoedd iach y mae gan bob plentyn hawl i'w derbyn.

- 14 Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn ymwybodol o arweiniad a phecynnau canllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno addysg perthnasoedd iach a rhoi dull ysgol gyfan ar waith i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn gyffredinol, mae gormod o ddogfennau arweiniad ar gyfer ysgolion yn amlinellu agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw a pherthnasoedd a chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- 15 Ychydig iawn o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi gweithredu yn unol â'r arweiniad a amlinellir yng nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethwyr, sef 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' (Llywodraeth Cymru 2016b). Ychydig iawn o staff ysgol yn unig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein lefel 1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ysgol yn ymwybodol o gynnwys a gofynion y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Roi arweiniad Llywodraeth Cymru ar waith i ddarparu dull ysgol gyfan o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2015)
- A2 Sicrhau bod negeseuon allweddol yn ymwneud â pherthnasoedd iach yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd
- A3 Adeiladu ar yr arfer orau a nodir yn yr adroddiad hwn

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A4 Sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cwblhau'r hyfforddiant a amlinellir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A5 Gyhoeddi arweiniad ymhellach i sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethol yn ymwybodol o'r cyngor a'r arweiniad y maent yn eu cynnwys
- A6 Sicrhau bod y rheiny sy'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm ar gyfer y maes dysgu iechyd a lles a phrofiadau yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gan ysgolion o ran rhoi Deddf TEMCDThRh 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) ar waith, a chynnwys addysg perthnasoedd iach yn eu gwaith
- A7 Galluogi staff sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau annibynnol i elwa ar y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

Rheoli arian – Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae cyflwyno'r elfen 'rheoli arian' yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh; Llywodraeth Cymru, 2014) a rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2015b) wedi helpu'r rhan fwyaf o athrawon i nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol mewn gwersi mathemateg a phynciau eraill. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw'r cynllunio yn galluogi disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau ariannol fel arfer wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
- 2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'r agwedd hon ar y cwricwlwm o fewn eu darpariaeth gyffredinol ar gyfer rhifedd. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion yn cyflwyno addysg ariannol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn gyfan gwbl mwyach. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn datblygu medrau ariannol disgyblion yn gynyddol drwy weithgareddau rhifedd, a'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb ariannol trwy gyd-destunau addysg bersonol a chymdeithasol ystyrlon. Nid yw lleiafrif o ysgolion cynradd a mwyafrif o ysgolion uwchradd yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u galluoedd ariannol mewn gweithgareddau heriol a pherthnasol ar draws ystod o feysydd a chyd-destunau'r cwricwlwm.
- 3 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae uwch arweinydd neu arweinydd canol yn gyfrifol am ddatblygu, cydlynu ac arfarnu rhifedd. Er bod ysgolion yn monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth gyffredinol mewn rhifedd, ychydig iawn ohonynt sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysg ariannol.
- 4 Mae uwch arweinwyr yn ystyried bod gwerth i addysg ariannol fel elfen bwysig o ddatblygu medrau bywyd disgyblion, ond dim ond ychydig ohonynt sy'n ymwybodol o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru a'r ddogfen arweiniad, 'Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2011).
- 5 Mae ychydig o ysgolion, mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd fel arfer, yn datblygu darpariaeth addysg ariannol fel blaenoriaeth o ran gwella'r ysgol. At ei gilydd, mae llawer o ysgolion yn wynebu heriau i gyflawni a chynnal gwelliannau wrth gyflwyno addysg ariannol. Mae hyn yn aml oherwydd y galw cynyddol am amser cwricwlwm a blaenoriaethau cystadleuol i wella'r ysgol.
- 6 Mae lleiafrif o ysgolion yn parhau i elwa ar bartneriaethau defnyddiol gyda banciau, cymdeithasau adeiladu, busnesau lleol ac undebau credyd. Yn aml, mae'r partneriaethau hyn yn helpu disgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth ariannol ac yn eu cynorthwyo gyda phrosiectau codi arian a phrosiectau menter. Er gwaethaf buddion gweithio gydag arbenigwyr ariannol, mae llawer o ysgolion yn ei chael hi'n anodd cynnal y partneriaethau hyn. Mae gallu sefydliadau unigol i ddarparu cymorth i'w hysgolion lleol o ran datblygu addysg ariannol disgyblion yn amrywio gryn dipyn ar hyd a lled Cymru. Nid yw pob ysgol yn ymwybodol o'r rhaglenni addysg ariannol y gall eu hundeb credyd, banc neu gymdeithas adeiladu leol eu darparu. O ganlyniad,

mae ysgolion a sefydliadau ariannol lleol yn colli cyfleoedd gwerthfawr i wella profiadau dysgu a medrau ariannol disgyblion a'u cymunedau.

- 7 Darperir trefniadau defnyddiol iawn ac arloesol gan ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, i gynnwys rhieni a disgyblion mewn gweithgareddau addysg ariannol. Mae'r rhain yn darparu gwasanaeth gwerthfawr, yn enwedig mewn cymunedau lle mae rhieni'n gofyn am gymorth gan ysgolion i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ariannol nhw eu hunain a'u plentyn.
- 8 Nid yw hyfforddiant penodol i athrawon mewn addysg ariannol ar gael mor eang i ysgolion ag ydoedd yn 2010. Bellach, mae'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn fwy tebygol o fod yn rhan o hyfforddiant rhifedd generig sy'n cael ei ddarparu gan gonsortia rhanbarthol neu fel rhan o drefniadau hyfforddi mewnol ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth a'r medrau gan bob athro i'w helpu i gyflwyno addysg ariannol yn hyderus.
- 9 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys gwefannau a llwyfannau dysgu digidol, i ddod o hyd i adnoddau addas ar gyfer addysg ariannol. Mae ymwybyddiaeth a hyder athrawon i ddefnyddio adnoddau addysg ariannol, gan gynnwys deunydd dwyieithog, o HwB, yn amrywio gryn dipyn o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- R1 Cynllunio a darparu cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol ar draws y cwricwlwm
- R2 Monitro ac arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer addysg ariannol
- R3 Darparu hyfforddiant priodol i staff er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol

Dylai Awdurdodau Lleol / Consortia:

- R4 Hwyluso trefniadau effeithiol i ysgolion rannu arfer dda ac adnoddau ar gyfer addysg ariannol
- R5 Adolygu'u rhaglenni hyfforddi ar gyfer rhifedd i sicrhau eu bod yn galluogi athrawon i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o addysg ariannol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- R6 Adolygu a hyrwyddo'i deunydd arweiniad ar gyfer cyflwyno addysg ariannol yn effeithiol, i gynnwys cronfa ddata o adnoddau a sefydliadau defnyddiol i ysgolion
- R7 Cefnogi datblygu adnoddau addysg ariannol ddigidol dwyieithog
- R8 Sicrhau bod addysg ariannol wedi'i chynnwys wrth ddatblygu'r maes dysgu a phrofiad newydd ar gyfer ieuchyd a lles, yn ogystal â mathemateg a rhifedd

Gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yng nghyfnod allweddol 2

Prif ganfyddiadau

Safonau mewn gwyddoniaeth

- 1 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau gwyddonol sylfaenol a natur gwyddoniaeth. Un nodwedd gref mewn llawer o ysgolion yw dealltwriaeth disgyblion o'r angen am ddeiet iach ac ymarfer corff rheolaidd i sicrhau iechyd da. Lle ceir y safonau cryfaf, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau fel disgyrchiant a magneteg, ac yn defnyddio termau gwyddonol yn gywir.
- 2 Mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda yn debyg i'w gilydd, ac mae bron pob un yn ymgymryd â gwaith gwyddonol â'r un brwdfrydedd. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd cynnal ymchwiliadau'n ofalus a rheoli newidynnau. Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'u hymholiadau gwyddonol, eu rhagfynegiadau a'u canlyniadau gan ddefnyddio terminoleg wyddonol.
- 3 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda mewn gwyddoniaeth, er enghraifft, wrth feddwl am achos ac effaith. Mewn un ysgol, mae disgyblion hŷn yn gwneud rhagfynegiadau ynglŷn â pha ddeunyddiau sy'n gweithredu orau fel hidlyddion cyn cynnal ystod o ymchwiliadau i roi eu syniadau ar brawf. Maent yn rhoi rhesymau ystyrlon am eu rhagfynegiadau, yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol y maent wedi'i dysgu'n flaenorol.
- 4 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud arsylwadau defnyddiol a chywir o'u gwaith gwyddoniaeth, ac maent yn cofnodi'r rhain yn effeithiol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n deall yr angen i ailadrodd ymholiadau a chofnodi nifer o ddarlleniadau er mwyn sicrhau dibynadwyedd eu gwaith. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn esbonio'r rhesymau dros eu casgliadau yn dda, ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r egwyddorion neu gysyniadau gwyddonol sylfaenol perthnasol. Wrth gyflwyno canlyniadau, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwybod pa siart y dylent ei ddefnyddio ar gyfer mathau gwahanol o ddata. Nid yw ychydig iawn o athrawon yn deall pa siart i'w ddefnyddio ychwaith.
- 5 Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ac yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn dda mewn gwersi gwyddoniaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u medrau rhifedd i fesur yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol, ac yn defnyddio meddalwedd cronfa ddata i'w galluogi i gofnodi a dadansoddi eu canfyddiadau.
- 6 Mae'r gwahaniaeth o ran cyflawniad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mewn gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn yn rhy fawr o hyd, ac mae'r bwlch yn dal i ehangu ar lefel 5.

Safonau mewn dylunio a thechnoleg

- 7 Mae mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dylunio ac yn gwneud cynhyrchion syml gan gyfuno'u medrau dylunio a gwneud. Maent yn greadigol yn eu gwaith dylunio a thechnoleg ar draws ystod eang o destunau.

- 8 Mae llawer o ddisgyblion yn dangos eu syniadau dylunio gan ddefnyddio brasluniau wedi'u labelu'n syml. Fodd bynnag, nid yw digon ohonynt yn cynnwys mesuriadau cywir yn eu cynlluniau, lle bo'n briodol. Dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n cynllunio'n ddigon da y camau y byddant yn eu cymryd i gwblhau'u prosiect.
- 9 Mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn deall llawer o'r cydrannau gwahanol yn y cwricwlwm dylunio a thechnoleg, fel bwyd a defnyddiau. Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, mae dealltwriaeth disgyblion o 'systemau a rheolaeth' yn wan.

Darpariaeth

- 10 Mae cynlluniau cynhwysfawr gan y rhan fwyaf o ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn elwa ar gwricwlwm gwyddoniaeth eang a chytbwys. Pan fydd ysgolion yn prynu cynlluniau gwaith sydd ar gael yn fasnachol, nid yw ychydig ohonynt yn eu haddasu i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am yr holl feysydd gwyddoniaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 11 Mae llawer o ysgolion yn dyrannu cyfnod amser addas i addysgu gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion wedi gweithredu'r argymhelliad o adolygiad Estyn 'Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 2 a 3' (2013) y dylai ysgolion wneud yn siŵr yr addysgir gwyddoniaeth i ddisgyblion am o leiaf ddwy awr yr wythnos.
- 12 Pan fydd polisi cwricwlwm gwyddoniaeth ysgol yn aneglur ac mae arweinwyr yn caniatáu gormod o ddewis i athrawon unigol benderfynu pa mor aml y mae disgyblion yn gwneud gwaith ymchwiliol, caiff disgyblion mewn dosbarthiadau gwahanol gyfleoedd anghyson i ddatblygu'u medrau ymchwiliol.
- 13 Mewn llawer o ysgolion, mae ansawdd yr addysgu yn dda mewn gwyddoniaeth. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau gwyddoniaeth disgyblion, ond nid yw lleiafrif yn herio disgyblion mwy abl yn ddigonol.
- 14 Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi adborth llafar manwl i ddisgyblion yn ystod gwersi gwyddoniaeth sy'n eu helpu i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Dim ond mewn lleiafrif o achosion y mae athrawon yn rhoi digon o ffocws yn eu hadborth ysgrifenedig ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol disgyblion. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol mewn gwyddoniaeth i ddisgyblion ystyried sut gallent wella neu i asesu eu dysgu eu hunain neu ddysgu eu cyfoedion.
- 15 Mae mwyafrif o ysgolion yn darparu cwricwlwm dylunio a thechnoleg diddorol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw o leiaf hanner yr ysgolion hyn yn addysgu holl feysydd y cwricwlwm yn gyson. Ym mron pob un o'r achosion hyn, mae athrawon yn hepgor y maes 'systemau a rheolaeth'. Mewn lleiafrif o ysgolion, dealltwriaeth wan sydd gan athrawon o feysydd y cwricwlwm dylunio a thechnoleg, yn enwedig 'systemau a rheolaeth'.
- 16 Nid oes cynlluniau ddigon manwl gan lleiafrif o ysgolion sy'n gwneud yn siŵr bod disgyblion yn datblygu'u gwybodaeth a'u medrau mewn dylunio a thechnoleg yn systematig.

- 17 Mae ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn yn dechrau ystyried y Meysydd Dysgu a Phrofiad a ddisgrifiwyd yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Maent yn dechrau integreiddio pynciau ac addasu'u cynlluniau i ganolbwyntio ar gyflwyno cwricwlwm mwy cyfannol lle maent yn addysgu cysyniadau, medrau a gwybodaeth o ystod o bynciau'r cwricwlwm mewn un wers.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 18 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn ymgymryd ag ystod briodol o weithgareddau hunanarfarnu i fonitro safonau a darpariaeth mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn nodi diffygion mewn gwyddoniaeth yn ddigon cadarn. Wrth fonitro ansawdd yr addysgu mewn gwyddoniaeth, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n rhy aml ar agweddau generig ar addysgu, ac anaml y nodir camau i wella gwyddoniaeth yn benodol.
- 19 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr yn goruchwylio prosesau asesu athrawon yn ddigon effeithiol. Lle mae hyn yn wir, mae asesiadau athrawon o ddisgyblion mewn gwyddoniaeth yn anghywir, ac maent yn rhy hael yn aml.
- 20 Mae llawer o arweinwyr ysgol yn cydnabod gwendidau mewn safonau a darpariaeth ar gyfer dylunio a thechnoleg. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion sy'n monitro'r pwnc hwn yn gadarn. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae arweinwyr yn datblygu cynlluniau gwella addas i fynd i'r afael â'r materion hyn. O ganlyniad, mae'r gwendidau yn parhau yn aml.
- 21 Nid oes digon o gyfleoedd i athrawon ddatblygu'u harbenigedd mewn addysgu gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg. Mae argaeledd hyfforddiant mewn gwyddoniaeth gan gonsortia lleol yn amrywio ledled Cymru. Dim ond ychydig iawn o athrawon sy'n cael cyfleoedd hyfforddi i'w helpu i gyflwyno'r cwricwlwm dylunio a thechnoleg. Mae ychydig o benaethiaid yn gofyn am arbenigedd o ysgolion cynradd eraill lle cydnabuwyd bod arfer dda, er mwyn cynorthwyo'u hysgolion eu hunain yn y meysydd cwricwlwm hyn.
- 22 Er gwaethaf gwahaniaeth nodedig o ran deilliannau mewn gwyddoniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion, prin yw'r arweinwyr sy'n defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i dargedu gwelliannau yn y pwnc hwn.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- R1 Gwneud yn siŵr bod gwersi gwyddoniaeth yn herio pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl, a lleihau'r bwch rhwng cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion
- R2 Gwneud yn siŵr bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am holl feysydd y cwricwlwm dylunio a thechnoleg, yn enwedig 'systemau a rheolaeth'
- R3 Sicrhau bod asesu yn helpu disgyblion wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella

- R4 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn gadarn ac yn canolbwyntio ar wybodaeth bynciol, dealltwriaeth a medrau disgyblion, ac ar ansawdd yr addysgu
- R5 Darparu hyfforddiant i athrawon ym meysydd gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg lle ceir diffyg gwybodaeth a hyder

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- R6 Darparu mwy o gymorth penodol i bwnc i athrawon er mwyn gwella'r addysgu a'r asesu mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg a hwyluso rhannu arfer dda
- R7 Darparu mwy o gymorth i ysgolion arfarnu'u cwricwlwm a chynllunio ar gyfer datblygu maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg

Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae bron pob ysgol yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i helpu iddynt wneud eu dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4. Defnyddiant ystod o strategaethau i gynorthwyo disgyblion a'u rhieni i wneud penderfyniadau, gan gynnwys darparu cyngor gan gynghorwyr gyrfaoedd mewn nosweithiau agored. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi ymateb yn effeithiol i ostyngiadau yn y cymorth a gynigir gan Gyrfa Cymru. O ganlyniad, ychydig o ysgolion yn unig sy'n sicrhau bod pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn cael cyfweiliad i drafod eu dewisiadau gyrfa.
- 2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod o wybodaeth gyffredinol am ddewisiadau ôl-16 i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth nac adnoddau digon cyfoes i arwain penderfyniadau disgyblion. Yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo eu chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag archwilio ystod y dewisiadau eraill sydd ar gael i ddisgyblion ar draws ystod y darparwyr yn llawn.
- 3 Mae dulliau ar gyfer cyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr ar draws ysgolion. Mae llawer o ysgolion wedi newid eu darpariaeth yn sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Er bod yr amser a neilltuir i weithgareddau sy'n gysylltiedig â GBG gan ysgolion wedi cynyddu ar gyfartaledd, mewn llawer o achosion, caiff y ddarpariaeth hon ei chynllunio bellach o amgylch gofynion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn hytrach na'r fframwaith GBG.
- 4 Mae faint o amser gwersi y mae ysgolion yn ei neilltuo i GBG yn parhau i amrywio'n fawr. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn neilltuo unrhyw amser i GBG. Mewn lleiafrif o ysgolion, ni ddarperir hyfforddiant nac adnoddau cyfoes i staff ymgymryd â'r rôl hon. Mae lleiafrif o ysgolion o'r farn fod eu darpariaeth GBG yn llai effeithiol nag ydoedd bum mlynedd yn ôl. Mae'r ysgolion hyn yn credu bod gostyngiadau yn y cymorth sydd ar gael gan Gyrfa Cymru, wedi'i gyfuno â gofynion cynyddol cwricwlwm cyfnod allweddol 4, wedi golygu na allant gyflwyno GBG mor effeithiol ag yr oeddent yn y gorffennol. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi cryfhau eu darpariaeth GBG dros y cyfnod hwn.
- 5 Mae cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y chweched dosbarth wedi dirywio'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn teimlo na allant fodloni'r gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer gallu cynnal rhaglen profiad gwaith gan nad yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrfa Cymru gynnal cronfa ddata profiad gwaith genedlaethol ar ran ysgolion mwyach. Mae bron pob ysgol sydd wedi lleihau darpariaeth profiad gwaith yn teimlo bod hyn wedi cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion ac ar eu dealltwriaeth o'u dewisiadau gyrfa. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal yr agwedd hon ar eu darpariaeth ac yn rheoli'r gofynion iechyd a diogelwch eu hunain.

- 6 Mae cyfran yr ysgolion sydd â systemau priodol ar waith i asesu cynnydd disgyblion yn erbyn yr amcanion dysgu yn y fframwaith GBG wedi cynyddu ychydig ers adroddiad blaenorol Estyn yn 2012. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r drefn o olrhain cynnydd disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd.
- 7 Er bod ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG, nid yw systemau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar gyfer GBG yn ddigon trylwyr. Mae hyn oherwydd nad yw'r data y maent yn ei ddefnyddio, er enghraifft cyfran y disgyblion sy'n aros yn yr ysgol ar gyfer y chweched dosbarth, o reidrwydd yn fesur dilys o ba mor dda y mae'r ysgol wedi cynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau llwyddiannus yn gysylltiedig â gyrfaedd. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n defnyddio data yn briodol i arfarnu pa mor dda y mae penderfyniadau disgyblion yn eu galluogi i lwyddo i gynnal eu dewisiadau dilyniant.
- 8 Er bod cyfran yr ysgolion sydd â llywodraethwr enwebedig sydd â chyfrifoldeb am GBG wedi cynyddu ychydig er 2012, nid yw rôl llywodraethwyr mewn cefnogi GBG wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n gwneud defnydd effeithiol o brofiad ac arbenigedd eu llywodraethwyr i wella'r agwedd hon ar eu gwaith.
- 9 Mae'r graddau y mae ysgolion yn cynnwys pobl eraill mewn cyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr. Mae cyfran y GBG a gyflwynir trwy bartneriaethau allanol wedi dirywio dros y pum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, ychydig iawn o gyfle y byddai disgyblion yn ei gael i elwa ar GBG heb iddo gael ei gyflwyno'n allanol.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael trafodaethau rheolaidd am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybrau dysgu posibl, yn enwedig ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11
- A2 Rhoi gwybodaeth gywir a chyfoes i ddisgyblion am ystod lawn y cyfleoedd chweched dosbarth, addysg bellach a phrentisiaeth sy'n agored iddynt
- A3 Arfarnu eu darpariaeth GBG i sicrhau ei bod:
- yn cael ei chyflwyno gan staff wedi'u hyfforddi'n dda, a bod y ddarpariaeth yn cynnwys adnoddau cyfoes
 - yn darparu profiadau perthnasol sy'n canolbwyntio ar waith ar gyfer disgyblion
 - yn defnyddio gwybodaeth yn well i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion er mwyn cynllunio gwelliannau yn y ddarpariaeth
 - yn cael ei hintegreiddio mewn prosesau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant ac atebolrwydd ysgol gyfan
- A4 Cynnwys llywodraethwyr yn fwy mewn goruchwyllo GBG yn strategol

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A5 Helpu ysgolion i ddatblygu eu defnydd o wybodaeth i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Hyrwyddo partneriaethau cryfach rhwng ysgolion, darparwyr, cyflogwyr a phobl eraill i wella'r ffordd y caiff cyngor ac arweiniad diduedd eu cyflwyno
- A7 Adolygu'r fframwaith GBG a diweddarau arweiniad yng ngoleuni egwyddorion diwygio'r cwricwlwm a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus

Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4

Prif ganfyddiadau

Safonau

- 1 Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wyddoniaeth mewn llawer o'r gwersi gwyddoniaeth a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 4, ond mewn tua hanner yn unig o'r gwersi gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3. Mae ansawdd yr addysgu yn well mewn gwersi cyfnod allweddol 4 nag yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn aml yn rhy isel.
- 2 Yn y gwersi lle gwneir cynnydd da, mae disgyblion yn galw gwaith gwyddoniaeth blaenorol i gof yn dda. Maent yn dangos diddordeb ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith. Maent yn ymgymryd â gwaith ymarferol ac ymchwiliol yn gymwys. Defnyddiant dermau gwyddonol gyda dealltwriaeth a gallant ddarparu esboniadau rhesymedig yn eu hatebion ysgrifenedig a llafar. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu am destunau gwyddoniaeth mewn amrywiaeth o arddulliau ac ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol.
- 3 Mewn lleiafrif o wersi, mae cynnydd yn rhy araf. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn rhy ddibynnol ar yr athro. Mewn ychydig iawn o wersi, mae rhai disgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Mae'r tarfu hwn yn fwy cyffredin yng nghyfnod allweddol 3 ac mewn gwersi sy'n cael eu haddysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr gwyddoniaeth.
- 4 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ar lefel 2 mewn gwyddoniaeth wedi dangos tuedd ar i fyny o 2012 i 2015. Er gwaethaf gostyngiad yn 2016, gwyddoniaeth yw'r pwnc craidd â'r cyrhaeddiad uchaf yng Nghymru o hyd. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson mewn gwyddoniaeth. Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill o hyd. Nid yw cyfran y disgyblion sy'n cael y graddau uchaf mewn gwyddoniaeth TGAU wedi gwella dros gyfnod.
- 5 Yng nghyfnod allweddol 3, yn ôl asesiadau athrawon, mae cynnydd wedi bod flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5 ac yn uwch) mewn gwyddoniaeth er 2012. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch mewn gwyddoniaeth wedi gwella hefyd, er nad yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal mewn gwyddoniaeth â'u cyfoedion. Mae perfformiad bechgyn wedi bod yn is na pherfformiad merched ar bob lefel bob blwyddyn er 2012.
- 6 Mae canlyniadau TGAU ac asesiadau athrawon yn cyferbynnu â chanfyddiadau ym mhroffion PISA yn 2015. Mae sgorau cyfartalog PISA ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru wedi dirywio bob tair blynedd er 2006. Mae'r dirywiad ym mherfformiad y disgyblion â'r cyflawniad gorau wedi bod yn ffactor allweddol yn y dirywiad hwn. Yn PISA, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched mewn gwyddoniaeth.

Darpariaeth

- 7 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae ansawdd yr addysgu yn cynnwys llawer o gryfderau mewn llawer o wersi yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn tua hanner y gwersi yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o athrawon, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac maent yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol disgyblion yn dda trwy gynllunio ystod o weithgareddau diddorol. Mae'r athrawon hyn yn darparu gwaith ymarferol wedi'i gynllunio'n dda, maent yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i wella eu haddysgu, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu llythrennedd a'u rhifedd. Mae esboniadau athrawon yn glir a chryno. Mewn rhai gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau eithriadol o uchel ac maent yn helpu disgyblion i'w cyflawni.
- 8 Mewn lleiafrif o wersi, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, mae disgwyliadau'n isel, ac nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion, ac nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh.
- 9 Mae llawer o athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu o brofion ac arholiadau yn dda i gael darlun clir o gryfderau a gwendidau disgyblion unigol. Lleiafrif o athrawon yn unig sy'n rhoi sylwadau defnyddiol sy'n benodol i bwnc i ddisgyblion wella'u gwaith. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth o'r fath.
- 10 Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn holi disgyblion yn dda, gan ganiatáu amser priodol ar gyfer ymateb, ac annog atebion mwy eang. Mae rhai athrawon yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill, ond yn amlach na pheidio, mae diben y math hwn o asesiad yn aneglur gan nad yw disgyblion yn defnyddio meini prawf addas sy'n eu helpu i wella'u gwaith.
- 11 Yn gyffredinol, neilltuir digon o amser addysgu ar gyfer addysgu gwyddoniaeth ar hyn o bryd, ond caiff amser ei leihau ar gyfer gwyddoniaeth TGAU mewn llawer o ysgolion i wneud lle i feysydd eraill y cwricwlwm fel Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cyrsiau gwyddoniaeth galwedigaethol yn sylweddol er 2015. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi adolygu eu cwricwlwm gwyddoniaeth i ymateb i adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, G. (2015)).
- 12 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig gweithgareddau gwyddoniaeth allgyrsiol gwerth chweil, ond nid yw'r cynllunio ar gyfer ymestyn disgyblion mwy abl wedi'i ddatblygu'n ddigonol mewn gwyddoniaeth. Nid oes cyfle chwaith i ddisgyblion gyfrannu at beth maent eisiau ei ddysgu, a sut.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 13 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yn gyffredinol, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth eang ar gyfer cwricwlwm yr ysgol a'r hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni ar gyfer eu disgyblion. Mewn adrannau gwyddoniaeth, mae arweinwyr yn llai clir ynglŷn â nodau penodol y cwricwlwm gwyddoniaeth. Gallai'r newidiadau diweddar i gymwysterau fod wedi cyfrannu at y diffyg eglurder hwn, gan nad yw arweinwyr gwyddoniaeth yn ddigon cyfarwydd â'r cynnwys na'r gofynion asesu.

- 14 Mae llinellau atebolrwydd ar gyfer adrannau gwyddoniaeth yn glir ar y cyfan. Fodd bynnag, gan fod yr holl gymwysterau wedi'u cynnwys ym mesur lefel 2 ar gyfer gwyddoniaeth, nid yw data perfformiad yn ddigon penodol i alluogi adran i'w chymharu ei hun yn effeithiol ag ysgolion tebyg. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg trylwyredd yn y ffordd y mae adrannau gwyddoniaeth yn rheoli perfformiad ac arfarnu yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig pan nad yw arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth i arfarnu ansawdd yr addysgu, ac mae arweinwyr adrannau gwyddoniaeth yn rhy ddibynnol ar ddefnyddio data.
- 15 Mae hunanarfarniadau'r rhan fwyaf o adrannau gwyddoniaeth wedi'u seilio ar wybodaeth a gasglwyd o ffynonellau addas, fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, mae arsylwadau gwersi'n tueddu i ganolbwyntio gormod ar flaenoriaethau ysgol gyfan, ac o ganlyniad, nid ydynt yn arfarnu safonau a chynnydd mewn wybodaeth a dealltwriaeth o wyddoniaeth yn ddigon da. Wrth edrych ar waith disgyblion, mae'r rhan fwyaf o adrannau yn ystyried medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ond rhai ohonynt yn unig sy'n canolbwyntio ar safon gwyddoniaeth.
- 16 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cynllun gwella'r adran wyddoniaeth wedi'i gysylltu'n addas â'u hadroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac mae'r meini prawf llwyddiant wedi'u cysylltu'n briodol â thargedau'r adran. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw'r camau gweithredu yn ddigon penodol i wella ansawdd yr addysgu.
- 17 Mae lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi cymryd rhan yn rownd ddiweddaraf profion PISA. Ychydig o ysgolion yn unig sydd wedi dadansoddi adroddiad eu hysgol ar sail canlyniadau profion yn fanwl er mwyn nodi unrhyw wendidau a chynllunio i fynd i'r afael â nhw. Yn yr un modd, o'r ysgolion na chymerodd ran ym mhroffion PISA yn 2015, ychydig iawn ohonynt sydd wedi ystyried cynnwys yr adroddiad ar gyfer Cymru, na sut byddai'n effeithio ar eu gwaith.
- 18 Mae'r rhan fwyaf o athrawon gwyddoniaeth yn elwa ar gymorth mewnol cadarn gan eu harweinwyr ysgol a'u cydweithwyr. Fodd bynnag, mae swyddogion pwnc consortia rhanbarthol yn targedu eu cymorth ar adrannau gwyddoniaeth y mae angen iddynt wella'n sylweddol ac nid oes digon o gymorth sy'n benodol i bwnc ar gyfer gwyddoniaeth mewn ysgolion nad ydynt yn tanberfformio.
- 19 Caiff y rhan fwyaf o wersi eu haddysgu gan athrawon gwyddoniaeth arbenigol. Yn gyffredinol, nid oes digon o ymgeiswyr am swyddi gwyddoniaeth ac mae recriwtio i adrannau gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg yn broblem benodol. Pan fydd staff gwyddoniaeth yn absennol, rhaid i ysgolion gyflogi athrawon cyflenwi nad ydynt yn arbenigol i gyflenwi yn ystod eu gwersi, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw nifer yr athrawon gwyddoniaeth ôl-raddedig sy'n cael eu hyfforddi wedi bodloni targedau cenedlaethol dros sawl blwyddyn.
- 20 Mae gan y rhan fwyaf o adrannau gwyddoniaeth offer da. Mae ganddynt nifer addas o labordai a nifer briodol o dechnegwyr i gefnogi'r addysgu. Mae staff cymorth gwyddoniaeth yn derbyn hyfforddiant priodol ar faterion iechyd a diogelwch. Ychydig iawn o hyfforddiant neu gymorth sydd ar gael i dechnegwyr.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Ddarparu cyfleoedd dysgu ysgogol a heriol mewn gwyddoniaeth sy'n cynnwys gwaith ymarferol effeithiol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl
- A2 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer gwyddoniaeth i baratoi ar gyfer y maes dysgu a phrofiad newydd ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg
- A3 Sicrhau bod hunanarfarnu adrannol yn gadarn ac yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth i arfarnu safonau sy'n benodol i bwnc ac ansawdd yr addysgu
- A4 Defnyddio adborth o adroddiad diweddaraf PISA i lywio cynllunio ar gyfer gwella
- A5 Sicrhau bod asesu yn helpu disgyblion i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A6 Ddarparu mwy o gymorth sy'n benodol i bwnc ar gyfer athrawon gwyddoniaeth ar wella addysgu ac asesu, a hwyluso rhannu arfer dda
- A7 Darparu mwy o gymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm, a chynllunio ar gyfer datblygu'r maes dysgu a'r profiad gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ogystal â'r newidiadau i gymwysterau mewn gwyddoniaeth

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8 Ymgyrchu i ddenu mwy o raddedigion gwyddoniaeth i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru

Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae canfyddiadau arolygiadau ac adroddiadau thematig ar deithiau gwella uwchradd a chynradd (Estyn, 2013; Estyn, 2016) yn awgrymu bod **rhaid i ysgolion gael diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol** er mwyn i gymorth a chydweithio rhwng ysgolion fod yn llwyddiannus.
- 2 Daeth yr arfarniad o'r Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol i gasgliadau tebyg (Llywodraeth Cymru, 2013). Nododd hefyd fod **angen i'r ysgol wybod a derbyn pan fydd angen newid**.
- 3 Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r arfarniad o Her Ysgolion Cymru yn awgrymu bod yr ysgolion a oedd eisoes ar eu taith i wella, yn cydnabod yr hyn yr oedd angen ei newid a pham, yn gallu gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan ysgolion eraill (Llywodraeth Cymru, 2014a). Mae angen ymyrraeth a her gadarn ar ysgolion sydd ag arweinyddiaeth wan, dulliau hunanarfarnu gwael a hinsawdd o weld bai a diffyg ymddiriedaeth i elwa ar y cyfleoedd a ddarperir gan y cyllid, ac **mae angen ymyrraeth pan na fydd ysgol yn darparu safon dderbyniol o addysg**.
- 4 Mae consortia rhanbarthol yn cydnabod bod angen iddynt gynnig dull gwahaniaethol o gefnogi a herio i ysgolion. Ym mhob consortiwm, darperir cymorth cynyddol i ysgolion gan ysgolion eraill. Fodd bynnag, **ni chaiff gwaith rhwng ysgolion ei fonitro na'i arfarnu'n** ddigon gofalus i sicrhau bod y cymorth yn cael yr effaith a fwriedir ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr ysgol sy'n darparu'r cymorth.
- 5 Ar sail y canfyddiadau uchod, mae'n bosibl nodi ffactorau llwyddiant cyffredin a rhwystrau y mae angen eu goresgyn cyn i gydweithio rhwng ysgolion allu bod yn effeithiol. Nid yw ysgolion yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill nes y bydd y rhan fwyaf o'r ffactorau llwyddiant ar waith a'r rhwystrau wedi cael eu gwaredu. Mae'r rhestrau isod yn adeiladu ar y rheiny a gyhoeddwyd i ddechrau yn adroddiad cyntaf Estyn (Estyn, 2015).

Ffactorau llwyddiant:

- Mae angen arweinyddiaeth hyfforddedig ac effeithiol ar yr ysgol
- Mae angen i'r ysgol wybod a derbyn pryd mae angen newid
- Dylai cymorth rhwng ysgolion ddeillio o nodi angen yn glir, cael rhesymwaith clir a dylai fod yn seiliedig ar amcan strategol
- Rhaid i'r ffocws fod ar fusnes craidd addysgu a dysgu ac ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion
- Mae angen diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol ar ysgolion
- Dylai'r cyfranogwyr deimlo bod y cydweithio yn rhywbeth sy'n fuddiol i'r ddwy ochr

- Dylai'r cyfranogwyr fod ar gamau tebyg o'u taith i wella – mae'n llai tebygol y bydd y cymorth yn llwyddiannus os yw'r gwahaniaeth mewn effeithiolrwydd rhwng yr ysgolion dan sylw yn rhy fawr
- Mae angen i'r perthnasoedd rhwng ysgolion fod yn gyfartal, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, yn agored a thryloyw
- Dylid arfarnu gweithgareddau am eu heffaith ar y busnes craidd
- Mae angen ymyrraeth pan na fydd ysgol yn darparu safon dderbyniol o addysg

Rhwystrau:

- Diffyg ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol
- Diffyg diddordebau a rennir
- Diffyg ymddiriedaeth a didwylledd
- Cred nad oes gan bobl eraill unrhyw beth defnyddiol i'w gynnig
- Pryder y bydd amser y mae arweinwyr ac athrawon yn ei dreulio i ffwrdd o'r ysgol yn cael effaith negyddol ar eu hysgol eu hunain a disgyblion
- Diffyg capasiti i ryddhau staff heb i hyn fod yn niweidiol i ddisgyblion

Arfer dda yn y dyniaethau

Prif ganfyddiadau

Safonau

- 1 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at y dyniaethau, ac maent yn llawn cymhelliant. Mae disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth o dasgau, astudio materion cyfredol, a'r cyfle i gymryd rhan mewn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
- 2 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn gweld tasgau'n anodd. Maent yn nodi elfennau tebyg a gwahaniaethau rhwng lleoedd ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i lunio casgliadau am leoedd neu ddigwyddiadau.
- 3 Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth wneud cysylltiadau rhwng ac o fewn testunau'r dyniaethau, er enghraifft cysylltu gweithgarwch tectonig ac amaethyddiaeth. Mewn llawer o wersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn brasddarllen ystod o destun i ddethol gwybodaeth berthnasol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu eu syniadau'n glir ac yn cyfiawnhau eu barn.
- 4 Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dysgu blaenorol cryf a gallant gymhwyso'r wybodaeth hon i gyd-destun newydd. Mewn hanes, mae disgyblion yn dadansoddi ffynonellau yn graff ac maent yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig strwythuredig. Mewn daearyddiaeth, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o'r byd naturiol a'n perthynas ag ef.

Darpariaeth

- 5 Ar draws ysgolion, mae modelau cynllunio'r cwricwlwm yn amrywio. Mae ysgolion cynradd yn mabwysiadu dull thematig o gynllunio'r cwricwlwm yn bennaf, ond mewn ysgolion uwchradd, ceir amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys y dull thematig a dull traddodiadol o addysgu pynciau'r dyniaethau ar wahân.
- 6 Mae cynllunio ar gyfer dilyniant yn y dyniaethau o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2 wedi'i ddatblygu'n dda. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer dilyniant o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn wan. Y rheswm am hyn yw bod trefniadau pontio'r cwricwlwm yn canolbwyntio amlaf ar y pynciau craidd. Ym mhob cyfnod allweddol, mae athrawon y dyniaethau yn cynllunio i sicrhau datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn fwy amrywiol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
- 7 Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r profiadau cyfoethogi a ddarperir gan y dyniaethau, fel gwaith maes ac ymweliadau addysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar wybodaeth gadarn am eu hanes lleol a gwerthfawrogiad o'u hardal. Mae disgyblion yn gwneud cysylltiad clir rhwng y

gweithgareddau hyn a'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion (GDD) i sicrhau bod disgyblion yn cael yr un cyfle i elwa ar y cyfleoedd hyn.

- 8 Mewn gwersi hynod effeithiol, mae athrawon yn cynllunio'n dda i adeiladu ar wybodaeth flaenorol a mwyhau cynnydd. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys cyfuniad medrus o wybodaeth bynciol a datblygu medrau disgyblion. Yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, caiff disgyblion eu cynnwys yn rheolaidd mewn cynllunio eu dysgu, o fewn yr ystafell ddosbarth, a'r tu hwnt. Mae disgyblion yn trafod gyda'u hathrawon y testunau y maent yn dymuno eu hastudio ac mae athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n gweddu i'r diddordebau ac yn ymateb i'r cwestiynau a godir gan ddisgyblion. Gan ddefnyddio ymholiadau disgyblion, mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethogi i ddisgyblion a rhieni, ac mae disgyblion yn dewis cwblhau'r gweithgareddau hynny sydd o ddiddordeb iddynt. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r pwyslais cryf ar dechnegau arholi a deilliannau yn cyfyngu ar ystod y profiadau dysgu a roddir i ddisgyblion.
- 9 Mae gan lawer o ysgolion uwchradd systemau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion ar draws y dyniaethau. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r arfer o olrhain cynnydd disgyblion ar draws y dyniaethau wedi'i datblygu'n ddigonol. Yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, ychydig iawn o safoni a chymedroli sy'n digwydd yng ngwaith disgyblion yn y dyniaethau.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 10 Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn mynegi'n glir egwyddorion arweiniol eu cynllun cwricwlwm. Gallai'r egwyddorion hyn gynnwys cysylltiadau â dysgu bywyd go iawn, profiadau uniongyrchol a chyfleoedd ar gyfer ymchwilio a datrys problemau i greu dysgwyr annibynnol a gwydn. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr arweinwyr wedi mynegi, nac mewn rhai achosion, ystyried, y 'dibenion craidd' neu'r 'egwyddorion arweiniol' sydd wrth wraidd y ffordd y maent yn cynllunio'r cwricwlwm.
- 11 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae uwch arweinwyr yn deall pwysigrwydd pynciau'r dyniaethau mewn cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r uwch arweinwyr hyn yn deall y rôl gref y gall y dyniaethau ei chwarae o ran datblygu medrau disgyblion mewn cyd-destun perthnasol.
- 12 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, ni roddwyd blaenoriaeth ddigon uchel i'r dyniaethau mewn cynllunio ysgol gyfan. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffocws cryf a roddir i wella safonau mewn llythrennedd a rhifedd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw wedi dechrau addasu eu cwricwlwm i ymateb i'r argymhellion o Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Yn y cynlluniau datblygu diweddaraf, mae'r dyniaethau'n cael eu hadolygu a'u cynllunio fel un o'r chwe maes dysgu.
- 13 Ym mhob un o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, caiff ansawdd yr addysgu ei fonitro'n agos. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion yn unig y ceir dealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o ran addysgu'r dyniaethau. Yn yr ysgolion hyn, caiff gwybodaeth o weithgareddau monitro ei defnyddio'n dda i rannu

arfer dda a darparu cymorth yn ôl yr angen. Mae lefel arbenigedd pwnc yn y dyniaethau yn amrywio'n fawr rhwng staff. Fodd bynnag, mae pob un o'r ysgolion yn gwneud defnydd cryf o arbenigedd staff mewnol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael profiad dysgu effeithiol yn eu gwersi dyniaethau.

- 14 Mewn llawer o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ym mhynciau'r dyniaethau yn gryf. Yn yr ysgolion hyn, mae prosesau hunanarfarnu wedi nodi'n glir effaith newidiadau i'r cwricwlwm ar ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arfarnu newidiadau i'r cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
- 15 Bron ym mhob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu'r dyniaethau. Mewn rhai adrannau, mae diffyg o ran rhannu arfer dda, ac mewn ychydig iawn o adrannau, mae anghysondeb yn ansawdd yr addysgu. Mewn rhai o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mae staff nad ydynt yn arbenigwyr pwnc yn addysgu'r dyniaethau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. Yn yr arfer orau, mae systemau cymorth priodol ar waith i sicrhau bod yr holl staff sy'n addysgu y tu allan i'w maes arbenigol yn derbyn cymorth priodol.
- 16 Yn ystod hyfforddiant cychwynnol i athrawon, caiff athrawon cynradd arweiniad cyfyngedig o ran addysgu'r dyniaethau. Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfleoedd ar gyfer ymestyn datblygiad proffesiynol athrawon yn y dyniaethau, heblaw cyrsiau sy'n gysylltiedig ag arholiadau, yn gyfyngedig. Nid oes llawer o gymorth sy'n benodol i bwnc ar gael gan lawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Crynodeb o nodweddion arfer dda yn y dyniaethau

- Mae arweinwyr yn deall a chefnogi lle'r dyniaethau mewn cwricwlwm eang a chytbwys.
- Mae athrawon yn cyfuno datblygiad gwybodaeth bynciol a medrau disgyblion yn fedrus. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn cyd-destun perthnasol.
- Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol, perthnasol a chyfredol yn eu gwersi.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ardal yr ysgol.
- Mae disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth eang o weithgareddau a ddarperir gan athrawon a'r cyfle i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu medrau disgyblion a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys pwnc
- A2 Sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion yn y dyniaethau yn amrywiol, diddorol, dilyniadol a heriol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4
- A3 Monitro'r cynnydd a wna disgyblion yn y dyniaethau yn agosach

A4 Arfarnu'r cwricwlwm ar gyfer y dyniaethau i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu'r maes newydd dysgu a phrofiad

A5 Sefydlu rhwydweithiau lleol arfer dda i rannu adnoddau ac arbenigedd, gan gynnwys gwneud defnydd gwell o ardal yr ysgol

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A6 Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell ar gyfer athrawon y dyniaethau

A7 Darparu mwy o gymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer datblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 Sicrhau bod cyrsiau addysg gychwynol i athrawon yn galluogi athrawon newydd, gan gynnwys athrawon cynradd, i feithrin y medrau angenrheidiol i addysgu'r dyniaethau yn llwyddiannus ac ymateb i'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dysgu gweithredol a thrwy brofiad – Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Prif ganfyddiadau

Mae tua chwarter yr ysgolion yn cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn dda. Yn yr ysgolion eraill, caiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd yn annibynnol, ac maent yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd gan oedolyn. Mae llawer o'r ysgolion hyn, yn enwedig ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2, yn canolbwyntio gormod ar wneud yn siŵr bod disgyblion yn cyflawni'n dda o fewn ystod gyfyng o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar ddatblygiad ehangach disgyblion.

Safonau mewn llythrennedd a rhifedd

- 1 Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwranddo effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon a staff cymorth yn sgwrsio â disgyblion yn rheolaidd i ymestyn eu dysgu yn ystod gweithgareddau wedi'u hysgogi gan y plentyn. Maent yn darparu cyd-destunau cyffrous ar gyfer dysgu ac mae hyn yn ennyn ymateb cyfoethog yn iaith lafar y plant.
- 2 Mae athrawon mewn tua hanner yr ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd 'siarad i ddysgu'. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol o iaith, mae ganddynt ddychymyg byw, a gallant ddefnyddio iaith i archwilio eu profiadau a'u bydoedd dychmygol eu hunain. Mewn lleiafrif o ysgolion, pan fydd gweithgareddau'n cael eu cyfeirio gan oedolion am y rhan fwyaf o'r amser, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion archwilio iaith trwy siarad ag oedolion a disgyblion eraill am destunau sydd o ddiddordeb iddynt. Nid ydynt yn datblygu geirfa estynedig nac yn magu hyder mewn siarad gyda phlant a phobl eraill.
- 3 Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff disgyblion eu trochi mewn amgylchedd dysgu sy'n rhoi nifer o gyfleoedd iddynt ddarllen amrywiaeth o destunau ac ymarfer a gwella eu medrau darllen trwy gydol y dydd. Fodd bynnag, gall y ffaith fod yn rhaid i ddisgyblion gadw'n gaeth at nifer benodol o lyfrau o gynllun darllen gael effaith niweidiol ar eu cynnydd wrth ddatblygu eu medrau darllen.
- 4 Mewn tua chwarter yr ysgolion ble caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu hyder wrth drosglwyddo eu dealltwriaeth o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu i feysydd dysgu eraill yn llwyddiannus. Mewn tua chwarter yr ysgolion, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws meysydd dysgu yn ddigon da. Dibynnir yn ormodol ar addysgu ffurfiol a defnyddio taflenni gwaith neu fframiau ysgrifennu i strwythuro ysgrifennu disgyblion. Nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol ar gyfer ysgrifennu yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn ddychmygus ac yn annibynnol.

- 5 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda mewn mathemateg pan gânt lawer o gyfleoedd diddorol i ddefnyddio eu medrau trwy weithgareddau manylach dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Er enghraifft, wrth ddysgu am fynd ar wyliau, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am adio a lluosu i ganfod cost y gwyliau i un person, ac wedyn i deulu o bedwar.
- 6 Mewn tua chwarter yr ysgolion, mae disgyblion yn trosglwyddo eu medrau mathemategol i weithgareddau annibynnol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn pwysu ceirch uwd ar gyfer 'Y Tri Arth' mewn gramau ac yn mesur eu hól-troed yn gywir mewn centimetrau. Wrth edrych ar amrywiaeth o wybodaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i gofnodi eu canfyddiadau a'u trosglwyddo i siart bar syml. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn dehongli a dethol gwybodaeth o weithgareddau trin data yn ddigon da.

Llais ac annibyniaeth disgyblion

- 7 Mae faint o ddewis a gaiff plant yn amrywio'n sylweddol o un dosbarth i'r llall ac o un ysgol i'r llall. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae diddordebau disgyblion a'u safbwyntiau yn ystyriaeth bwysig yng ngweledigaeth yr ysgol ar gyfer gwella. Mae barn ac adborth disgyblion yn nodwedd ganolog o ran cynllunio'r cwricwlwm a datblygu profiadau dysgu. O ganlyniad, mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu â'u dysgu. Pan fydd gormod o gyfarwyddyd gan oedolyn wrth gyflwyno'r cyfnod sylfaen a bod y cyfnod sylfaen yn rhy ffurfiol ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae lefelau dyfalbarhad disgyblion, a pharodrwydd i fentro'n ofalus yn eu dysgu, yn gostwng. Daw'r disgyblion hyn yn llai hyderus yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn annibynnol ar draws meysydd dysgu. At ei gilydd, mae arolygiadau yn nodi mwy o ddysgu wedi'i gyfeirio gan oedolion na dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn ym Mlwyddyn 2.

Darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd

- 8 Yn gyffredinol, mae ystafelloedd dosbarth yn y meithrin a'r derbyn wedi'u trefnu'n dda i hyrwyddo dysgu disgyblion trwy wneud, profi a chanfod pethau drostynt eu hunain. Fodd bynnag, ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae llawer o ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu'n fwy ffurfiol ac mae'r ffordd y caiff llythrennedd a rhifedd eu cyflwyno yn aml yn rhy strwythuredig gyda gormod o gyfarwyddyd oedolyn. Yn yr ystafelloedd dosbarth hyn, mae disgyblion yn tueddu i eistedd wrth ddesg am gyfran helaeth o'u diwrnod ac nid ydynt yn ymgymryd yn ddigonol â dysgu gweithredol a thrwy brofiad.
- 9 Nid yw athrawon mewn tua hanner yr holl ysgolion yn cynllunio'u gwaith yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon systematig ar draws yr holl feysydd dysgu.
- 10 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd, wedi'i drefnu'n dda. Nid yw athrawon yn deall sut beth yw darpariaeth barhaus, estynedig a ffocysedig.

- 11 Mewn rhai ysgolion, caiff arfer briodol yn y cyfnod sylfaen ei chyfyngu i brynhawniau yn unig neu un neu ddau brynhawn yr wythnos, sy'n groes i addysgeg y cyfnod sylfaen. Yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon bob amser yn ystyried sut gallant wneud cysylltiadau rhwng meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen yn ddigon da. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn cynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd yn y bore yn unig, ac nid ydynt yn gwneud y mwyaf o ddatblygu medrau disgyblion trwy gydol y dydd.
- 12 Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn integreiddio addysgu medrau ffoneg, darllen a medrau ysgrifennu penodol mewn ffyrdd arloesol yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig. Maent yn ehangu arnynt, yn aml mewn ffyrdd arloesol, yn ystod gweithgareddau parhaus ac estynedig. Mae hyn yn galluogi disgyblion i'w hymarfer a'u hymgorffori, gyda chydbwysedd da rhwng dysgu trwy brofiad ac agweddau ffurfiol ar addysgu. Fodd bynnag, erbyn Blwyddyn 2, caiff y medrau hyn eu haddysgu ar wahân yn aml. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd disgyblion yn mynd yn rhy gyfyng ac nid yw athrawon bob amser yn annog y disgyblion hyn i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol ar draws meysydd dysgu.

Addysgu ac asesu

- 13 Mewn chwarter o ysgolion ble mae'r addysgu yn effeithiol, mae athrawon yn atgyfnerthu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda. Maent yn addysgu medr penodol trwy dasg ffocysedig, ac yn cynllunio cyfleoedd cyffrous a pherthnasol i ymarfer, atgyfnerthu a datblygu'r medr hwn ac ymestyn dysgu'r disgyblion yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig. Mae staff yn hwyluso, yn arddangos ac yn cydweithio mewn dysgu. Maent yn cymell eu disgyblion ac yn defnyddio holi i ysgogi rhagor o ddysgu penagored.
- 14 Mewn llawer o ysgolion, cynorthwywyr addysgu, yn hytrach nag athrawon, sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith yn yr awyr agored, ond nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth glir o arfer yn y cyfnod sylfaen na'r amcan dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu medrau pwysig mewn llythrennedd a rhifedd, ac nid ydynt yn ymgymryd yn weithredol â dysgu pwrpasol am gyfnodau sylweddol.
- 15 Mewn llawer o ysgolion, mae prosesau ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd yn rhy gymhleth a llafurus. Maent yn canolbwyntio ar gasglu llawer o wybodaeth yn hytrach na dadansoddi cynnydd disgyblion dros gyfnod, neu nodi meysydd penodol i'w datblygu. Mewn gormod o achosion, defnyddir asesu fel proses i'w dilyn ac nid yw'n ddigon diagnostig i lywio cynllunio yn y dyfodol neu'r 'camau nesaf' ar gyfer disgyblion.
- 16 Yn ychwanegol, mae llawer o ysgolion yn teimlo dan bwysau i baratoi disgyblion yn ffurfiol ar gyfer profion darllen a rhifedd cenedlaethol, sy'n cyfrannu at amrywiadau eang yn arfer y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn aml ar draul datblygiad medrau creadigol a chorfforol disgyblion.

Arweinyddiaeth

- 17 Yn y rhan fwyaf o ysgolion ble ceir arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen, mae gan arweinwyr y cyfnod sylfaen rôl strategol allweddol yn yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella darpariaeth a gwella deilliannau disgyblion. Maent yn gweithredu fel modelau rôl medrus i ddangos egwyddorion ac arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen mewn addysgu a dysgu i gydweithwyr. Maent yn cynorthwyo staff i ddadansoddi data yn drylwyr.

- 18 Pan fydd arweinwyr y cyfnod sylfaen yn newydd i'r rôl, nid ydynt bob amser yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o arfer effeithiol i gyflwyno llythrennedd a rhifedd yn ddigon da. Yn aml, nid ydynt yn derbyn hyfforddiant mewn cyflwyno arferion effeithiol yn y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar eu gallu i gynorthwyo cydweithwyr i arddangos arfer dda wrth gyflwyno a chynllunio ar gyfer gweithgareddau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd dysgu.
- 19 Mae arweinwyr ysgolion sydd â safonau sy'n gyson dda yn arfarnu cynnydd a llwyddiant mentrau yn rheolaidd. Maent yn ystyried y dysgu sy'n digwydd a'i effaith ar ddeilliannau disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Nid oes ofn arnynt wneud newidiadau os nad yw pethau'n gweithio, ac mae hyn yn eu grymuso i fod yn arloesol a rhoi cynnig ar syniadau newydd.
- 20 Pan fydd arweinyddiaeth yn ddigonol neu'n anfoddhaol, mae golwg arweinwyr o ddiben y dysgu yn gyfyng, maent yn rhy ragnodol o ran cymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac nid ydynt yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn ddigon da. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi a mynd i'r afael â gwendidau mewn cyflwyno llythrennedd a rhifedd yn unol ag arfer dda yn y cyfnod sylfaen.
- 21 Mewn llawer o achosion, nid oes gan ymgynghorwyr her ddigon o wybodaeth na phrofiad o'r cyfnod sylfaen a'i addysgeg. O'r herwydd, nid ydynt bob amser yn deall beth yw safonau llythrennedd a rhifedd da. Mae hyn yn golygu bod y cymorth a'r her y maent yn eu cynnig i ysgolion weithiau'n gwrth-ddweud a thanseilio arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o staff y cyfnod sylfaen i wneud yn siŵr bod ganddynt y medrau, y ddealltwriaeth a'r hyder i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- A2 Sicrhau bod dysgu yn y cyfnod sylfaen yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cynnwys cydbwysedd addas rhwng dysgu trwy brofiad ac addysgu ffurfiol
- A3 Cynllunio cyfleoedd rheolaidd i'r holl ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd darpariaeth estynedig a pharhaus, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd
- A4 Cynnwys disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 mewn penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A5 Darparu hyfforddiant ar gyfer penaeithiaid i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen
- A6 Gwneud yn siwr bod ymgynghorwyr her yn nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon wrth gynorthwyo ysgolion
- A7 Darparu hyfforddiant ar gyfer ysgolion i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol mewn addysgu ac asesu medrau llythrennedd a rhifedd yn y cyfnod sylfaen, ar draws y meysydd dysgu

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8 Wneud yn siwr bod ysgolion yn deall addysgeg dysgu gweithredol a thrwy brofiad wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru